# Y DINESYDD

RHIF 7, RHAGFYR 1973

# CORFF IACH A MEDDWL IACH

### ADRODDIAD AR GYNGOR CHWARAEON CYMRU GAN GERAINT EVANS

**Beth, meddech chi yw'r ddolen gydiol rhwng y canlynol, Barry John, Jack Petersen, Tony Lewis a Lyn Davies? Wel, yr ateb yn syml yw eu bod i gyd yn gynaelodau neu yn parhau'n aelodau o Gyngor Chwaraeon Cymru a sefydlwyd gan Siarter Brenhinol ychydig dros flwyddyn yn ol. Yr oedd y digwyddiad hwnnw yn bennod bwysig iawn yn hanes chwaraeon yng Nghymru oherwydd gwelwyd sefydlu cyngor annibynnol a chyfrifoldebau arbennig am y tro cyntaf erioed. Cyn symud ymlaen fodd bynnag i siarad am y Cyngor fel y saif heddiw mae'n iawn i dalu teyrnged i'r cyrff ymgynghorol a fu'n gyfrifol am chwaraeon yng Nghymru cyn sefydliad y Cyngor presennol, oherwydd fe sicrhawyd ganddynt seiliau cadarn i adeiladu arnynt.**




*Canolfan Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd.*

Yn Haf 1971 cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru fod y Cyngor newydd i ddod i rym a phenodwyd y Cyrnol Harry Llewellyn yn gadeirydd arno. Yn fras iawn pwrpas ac amcan y Cyngor yw hybu datblygiad chwaraeon o bob math ac yn y traddodiad Cymreig gellid cwmpasu'r gwaith o dan dri phennawd.

Yn gyntaf fe all y Cyngor gynnig cymorthdaliadau i glybiau, i gyrff llywodraethol chwaraeon a hefyd i Awdurdodau Lleol er sicrhau gwell adnoddau. Yn ail y mae'r Cyngor yn cynnal cyrsiau hyfforddi mewn amryw o chwaraeon i bobl o bob oedran a phob safon ledled Cymru.

## SAFON UCHEL

Yn olaf drwy wahodd a denu rhai o'r pencampwyr gorau i'r Ganolfan Chwaraeon yng Nghaerdydd fe all y cyhoedd gael y cyfle i weld perfformwyr a safon uchel, gyda'r gobaith y bydd eu mwynhad a'u gwerthfawrogiad o'r gêm arbennig yn gwella o'r herwydd.

Tra'n son am y Ganolfan mae'n werth manylu ychydig ar y cyfleusterau sydd yno — ond ar yr un pryd rhaid dweud nad prif ddiben y Ganolfan yw ateb gofynion pobl Caerdydd a'r cylch ond yn hytrach i fod yn fan lle y gall chwaraeon o'r raddfa uchaf gymryd lle.

Yn y neuadd fawr sy'n mesur 120' x 120' gellir chwarae tennis, pel rwyd, badminton, hoci a lacrosse gyda lle i dros fil o bobl i wylio yn gyffyrddus. Mae yno hefyd ddwy gampfa, pedwar cwrt i gynnal sboncen, pwll nofio wedi ei wresogi, saethfa a hefyd wrth gwrs ffreutur a bar i alluogi chwaraewyr i gael bwyd a diod ar ôl eu hegnion.

Dyna'n fras felly gynnwys pencadlys y Cyngor, ond yn galonogol iawn fe ellid gweld newid aruthrol yn y cyfleusterau sydd yn cael eu darparu drwy Gymru gyfan, a hyn oherwydd gweledigaeth yr Awdurdodau Lleol. Yn fy hen Sir, Aberteifi, er engraifft, mae nifer y pyllau nofio yno wedi cynyddu'n ddramatig a'r un yw'r stori o Fon i Fynwy.

Fe hoffa'r Cyngor fodd bynnag weld cryn newid mewn agwedd tuag at ddefnydd deublyg yn ein hysgolion, er ei bod yn deg dweud fod rhai siroedd wedi ymateb yn dda i'r galw. Golyga hyn yn syml ddefnyddio cyfleusterau ysgol yn y nos ac ar ben wythnos er lles y gymdeithas ohoni.

## AGOR MWY

Er fod problemau gweinyddol, ffolineb yn nhyb y Cyngor yw cau campfeydd, neuaddau a phyllau nofio am bedwar o'r gloch ac yn ystod y gwyliau.

Pe agorid y rhain a gweithio allan batrwm o ddefnydd gallai nifer helaeth o bobl gymryd mantais o'r cyfleusterau hyn.

Ond ar ddiwedd y dydd fe fydd maint llwyddiant y Cyngor yn gyfatebol i faint y pleser a'r mwynhad y bydd pawb ohonom yn cael drwy wylio neu gymryd rhan yn ein hoff chwaraeon.

Mae'r hen ddywediad, corff iach a meddwl iach cyn wired heddiw ag y bu erioed, felly hwyl fawr gyda'r chwarae.

# MAE 'NA LE (I CHI) YN TŶ NI

"Os nag 'di o'n tŷ ni mae o 'drws nesa". Ond y tro yma yn ein ty ni mae'r helynt — Ty'r Cymry, 11 Gordon Rd., i fod yn fanwl. Beth ydi'r helynt? Yn syml bod Clwb Ty'r Cymry, a arferai fod mor llewyrchus wedi dioddef'n ddiweddar o ddiffyg cefnogaeth a brwdfrydedd ac wedi edwino'n enbyd. 'Does yr un cyfarfod o'r Clwb wedi cael ei gynnal er gaeaf y llynedd, 'does na yr un dosbarth i ddysgwyr Cymraeg yno eleni, 'doedd 'na yr un Cyfarfod Blynyddol Fis Ebrill diwetha i ethol swyddogion newydd, ac yn gyffredinol, mae pethau wedi mynd i'r gwellt!

Gymaint felly nes achosi cryn bryder i rai o gyn aelodau gweithgar y tŷ oedd wedi arfer gweld y Clwb yn ei anterth, a Nos Fawrth 20fed o Dachwedd fe gynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i bawb oedd yn ymboeni am ddyfodol Ty'r Cymry ddod ynghyd i drafod y priodoldeb o gynnal y Clwb neu beidio. Yn anffodus 'doedd 'pawb' ddim yn rhifo mwy na 22ain. Selogion y cyfnod 'aur' oedd y mwyafrif o'r rheiny ac fe gaed unfrydedd yn eu plith y dylid ymdrechu i ail godi'r Clwb ar ei draed.

I'r perwyl hwnnw fe etholwyd pwyllgor newydd dros dro (o hyn tan y Cyfarfod Blynyddol nesa yn Ebrill '74) : Mr. Gwilym Williams, Lakeside (Cadeirydd), Mr. Eric Evans, (Ysgrifennydd), Mr. Alwyn Prosser, (Trysorydd), Mrs. Eleanor Davies, Makintosh Place, Mrs. Beryl Hall, Coleg Cyncoed, Miss Gwerfyl Arthur, (Aelodau Cyffredinol).

Eu bwriad cyntaf yw dwyn adroddiad gerbron ymddiriedolwyr y Tŷ yn datgan eu hawydd a'u gobaith o barhau'r Clwb a'i weld yn llewyrchus unwaith eto. Mae'r ychydig ffyddlon yn ffyddiog ond bydd angen cefnogaeth arnynt os ydynt i lwyddo — eich cefnogaeth CHI. Ac wedyn, efallai, y symudith yr helynt o'n tŷ ni . . . . . .

# NOSON FAWR YN YR ÂS FACH

**Mae'n siwr i lawer o ddarllenwyr y Dinesydd gael gwefr wrth grwydro Bro Morgannwg dan gyfaredd llyfr taith Aneirin Talfan. Bum innau'n ymweld a phlasdai'r boneddigion gydag ef; yn gwrando ar eiriau ambell emyn neu gerdd yn ymyl murddun hynafol dan swyn ei ysgrifennu byw. Ond prin y dychmygwn y Nadolig diwethaf wrth ddarllen y llyfr, y byddwn yn cael mynediad mewn gwirionedd i awyrgylch amheuthun rhai o'r adeiladau hyn.**


Trefnwyd cyfres o ddarlithiau gan Miss Catherine Lloyd Griffiths yn rhai o gartrefi hanesyddol y fro — a'r darlithiau'n estyniad ar yr hyn sy'n cael ei draethu gan Aneirin Talfan. Bythefnos yn ôl daeth rhai ohonom ynghyd ym maenordy yr Âs Fach i glywed yr anfarwol Ddr Meredydd Evans yn rhoi cefndir ac yn canu rhai o alawon y fro. Anodd yw mynegi'r boddhad a geir wrth glywed geiriau ac alawon yn cael eu datgan yn naturiol yn y man lle y ganed nhw ganrifoedd yn ôl.

O fewn ergyd carreg i'r maenordy mae 'tre Bontfa'n lle' martchiodd' y milwr hwnnw i 'listio gyda'r Duke of York' a chawsom nodau anghyffredin y gân yn arbennig o hudolus yn eu cefndir priodol.

Hir y cofiwn hefyd atsain 'Hw Mla'n Mered' yn ystafell hardd yr Âs Fach a godwyd ynghanol caeau lle byddai'r gyrrwr ychen yn annog y wedd ymla'n ers llawer dydd. Dyna ddwy enghraifft yn unig o res o ddatganiadau a gawsom gan ein darlithydd wrth iddo roi eu hanes inni.

Darlith ysgolhaig oedd hon ond roedd yn dangos rhywbeth amgenach nac ysgolheictod hefyd sef y ddawn sy'n perthyn i ddyn i sy'n dilyn ei 'ddileit' — y ddawn i ysbrydoli. Diolch i'r Dr Meredydd Evans, Miss Catherine Lloyd Griffiths a Mr a Mrs Basley yr Âs Fach, am brofiad cofiadwy.

*Ann Rosser.*




## PWY FEDDYLIODD AMDANA I

**Fe ofynnodd gwas fferm i'w feistr un tro, ble mewn cae arbennig y gallai ddechrau hel cerrig. A'r ateb a gafodd oedd, "O gwmpas dy draed."**

**Ac eleni, fe benderfynodd aelodau Minny Street gyfrannu cynnyrch y cyfarfod diolchgarwch am y cynhaeaf i drigolion y strydoedd o gwmpas y capel. Rhyw deimlo'r oedden nhw bod rhai o'r bobol yma wedi cael eu hamddifadu gryn dipyn gan yr holl newidiadau sy wedi digwydd o'u cwmpas. Fe fyddwch yn cytuno, rwy'n siwr, iddo fod yn syniad ardderchog.**

**Hen wraig a ofynnodd y cwestiwn, "Whoever thought of me," pan ddaeth yr anrheg i'w dwylo hi. A chan fod clychau'r Nadolig yn uchel eu cloch ers misoedd yn nhai marchnad y ddinas, fe gaiff pob un ohonom ateb y cwestiwn hwn yn ei ffordd ei hun.**

## *Caerffili*

Ffurfiwyd cwmni yn cynnwys rhyw hanner dwsin o bobl ifainc sydd yn gysylltiedig ag Aelwyd Caerffili gyda'r bwriad o gynnal gwasanaethau ar ffurf rhaglenni nodwedd yng nghapeli'r ardal. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'i fath yng Nghapel Ebeneser, Casnewydd Anfonir unrhyw gyfraniadau a dderbynir o'r capeli i achos ddyngarol.

# Annwyl Ddarllenwyr

*Fe fydda i bron yn flwydd oed cyn bo hir a wir i chi dydwi ddim wedi cael llawer iawn o anrhegion yn ystod fy nghyfnod ar yr hen ddaear 'ma. A dyna pam rydwi'n sgwennu atoch chi i ofyn am rodd fach gan ei bod hi'n dymor gwario mawr.*

*Cofiwch dydwi ddim yn hoffi gofyn fel hyn (mae pawb yn licio bod yn annibynnol) ond rydwi wedi bod yn reit dda efo chi yn ystod y misoedd dwytha 'ma. Fe fum yn ymweld a chi bob mis yn rheolaidd (wel, bron yn rheolaidd) ers mis Ebrill, yn dod a newyddion am hwn a llall ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'ch gweithgaredda' chi, yn rhad ac am ddim.*

*Ond wyddoch chi be'? Mae byw o fis i fis yn beth poenus ac mae rhywun yn siwr o fynd i feddwl am aelodau eraill o'r teulu sy' wedi hitio'r llwch yn y gorffennol, a hwythau hefyd yn hen deips da.*

*Felly chi fyddigions y brifddinas, cofiwch amdanaf. Mae fy nillad wedi gwella tipyn yn ystod y misoedd dwytha, peidiwch a gadael imi fynd i wendid. Condemniwch fi, llosgwch fi ar ol fy rheibio, bwytewch sglodion tatws o'm crombil ond rwy'n gofyn yn wylaidd ichi am fwyd yn fy stumog — O rydwi'n awyddus i fyw.*

*Anfonwch eich cyfraniadau hael ata i —*

**'Y Dinesydd,'
44 Heol y Nant,
Rhiwbeina,
Caerdydd.**




## Santa Clôs

*Annwyl Sion Corn,*

*Dyma fi yn sgwennu atoch chi eto 'leni. Rydw i'n wyth oed rwan ac mi ges i et owt o ten am sgwennu hanas Dolig yn ein ty ni llynadd gin Miss Williams, Welsh.*

*Mi nes i sgwennu atoch chi llynadd hefyd ond dwi ddim yn meddwl bod hwnnw wedi cyrraedd achos ddaru chi ddim atab. Roedd mam yn deud ma' be oedd wedi digwydd oedd ych bod chi wedi rhoi 108 yn lle 118 ar yr enfilop. Does dim ots gin i am hynny ond wir y ma'n rhaid bod yn ofalus efo adresus.*

*A dyna pam dwi'n sgwennu a deud y gwir i ofyn i chi neud yn siwr cyn cyrraedd Caerdydd bod chi'n gwbod lle ma' bob man. Achos yn Rhiwbeina, lle ma' fy nhaid, Mr. Gwilym Roberts yn byw, ma' 'na enwa Cymraeg ar y strydoedd i gyd ac felly ma' hi'n hawdd gneud mistec, achos tydi'r bobol sy'n byw yn y strydoedd efo enwa Cymraeg ddim yn gwbod sut i ddeud enwa'r strydoedd, felly cyn i chi landio yno hefo Rwdolff gwnewch yn siwr bod chi'n gwbod am lle i ofyn os ewch chi ar goll a sut i ofyn, fel hyn:*

*Hole Air — nid — Heol Aer*
*Lone Why Ski Bore — nid Lon Ysgubor.*
*Glass Tinny Kay — nid — Clos Ty'n Y Cae.*
*One I Cruise — nid — Waun y Groes.*
*H.L.F. — nid Heol Llanishen Fach.*

*Gobeithio neith y llythyr yma gyrraedd,*

*Cofion cynnes,*
*Hywel Gwynfryn*

*P.S. Ma Dad yn mynd a ni i Butlins ha' nesa. Braf te?*

## CYNGERDD NADOLIG

Cynhelir Cyngerdd Blynyddol Cymdeithas Gorawl Aelwyd Caerdydd yn Neuadd Gerdd y Brifysgol, Heol Corbett ar Sadwrn, Rhagfyr 8fed am 7.00 o'r gloch.

Dyma brif neuadd gerdd y brifddinas; mae'n rhagori ar eraill o ran sain a chyfleusterau. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Athro Alun Hoddinnott am ganiatau inni ddefnyddio'r lle.

Fe berfformir gweithiau gan William Mathias, Vaughan Williams, Vincent Thomas yn y rhan gyntaf, a'r offeren yn E♭ gan Schubert yn yr ail ran.

Pobl ifanc ydy aelodau'r Cor a'r Gerddorfa; mae'r rhan fwyaf o'r gerddorfa naill ai'n gynaelodau neu'n aelodau presennol o Gerddorfa Ieuenctid Cymru.

Cewch weld gwisgoedd newydd porffor gan ferched y Côr ar y noson hon yn ogystal a'u clywed yn canu.

Gallwch archebu eich tocynnau trwy ffonio Caerdydd 591687 neu eu prynu wrth y drws.

## OD O BETH

**Peth braf oedd gweld Cymry Caerdydd a'r cylch mor frwd eu cefnogaeth i'r rhaglen deyrnged i Mr. Saunders Lewis a berfformiwyd gan Theatr yr Ymylon yn Theatr y Sherman yn ddiweddar. Mae'n hen bryd i ni yn y brifddinas gael manteisio ar theatr foethus, fodern fel hon i fwynhau dramau Cymraeg, gan fod Cwmni Theatr Cymru wrth ymweld a'r ardal wedi gorfod goddef perfformio mewn rhai neuaddau digon anaddas ac anhwylus — y rheiny, er yn fach ran amlaf yn hanner gwag. Syndod felly oedd gweld cynulleidfa mor fawr yn Theatr y Sherman. Beth oedd y rheswm tybed? Ai moethusrwydd y theatr oedd yn gyfrifol am bresenoldeb hoelion wyth B.B.C. Cymru? Oedd tocynnau wedi eu rhannu'n rhad ac am ddim? Mae'n wir wrth gwrs fod testun y rhaglen yn apelio'n fawr . . . . ond, ryw fis cyn hynny, beth oedd yn esbonio'r ffaith fod Cwmni Theatr Cymru'n cyflwyno rhaglen deyrnged i'r un gwrthrych i gynulliad llawer iawn llai yn y Barri? Ble oedd Cymry'r ardal y noson honno? Onid ydy hi'n ddyletswydd arnom bellach i gefnogi rhaglenni fel hyn? Efallai nad ydy safon y perfformiadau wrth ein bodd bob tro, ond does bosib nad ydynt yn haeddu ein cefnogaeth o leia.** *W.N.*




**O VAUGHAN I FYNWY**

**Y Gystadleuaeth — PA IAITH YW HON???**

CITY OF CARDIFF : DINAS CAERDYDD

**CITY TREASURER AND CONTROLLER'S DEPARTMENT**
CITY HALL CARDIFF CF1 3NA
City Treasurer and Controller: H. Mansfield
Replies should quote reference: RW/5614860L/MPG.
Telephone: Cardiff 31033 ext: 306

your ref:

31.10.73

Annwyl Chwaer,

Treth Dolwr.

Wrth gyfeirio at eich llythyr 22.10.73 y mae'n ddrug gennyf y byddai'n wastraffllyd i ddanfon ffurflenim treth ddwr yr Gymraeg gan mai cyn weled o bobl sy'n gofyn am bryn.

Fe ddanfonaf y cyfrif yn ol atoch cheri ac fe fyddaf yr falch o gael eich siec o £6.44 i dalu eich dyled.

Yr Eiddoch yn Gywir,

Trysorydd a Rheolwr Ariannol y Ddinas.

Mrs. E. Stephens,
6 Heol y Delyn,
Llysfaen,
CAERDYDD.

### CROESO

Croeso'n ol i'r ardal i Mr Gwilym Owen a'r teulu wedi egwyl fechan yn y Gogledd. Fe fyddan nhw 'n ail gartrefu yn Llanover Rd, Culverhouse Cross, lle mae nythaid da o Gymry Cymraeg eisoes yn byw: yn eu plith un o gyfeillion dyddiol Mr Owen o deledu Harlech, Gwyn Llewelyn.

**AR WERTH. Hillman Imp Delux. Ionawr 1972. 1 Perchennog 10,500 milltir. Cyflwr Da. Pris £580. Gellir trefnu hur-bwrcas, ffonier Pentyrch 461 nos.**

**Yn eisiau clud o Lakeside i Ganolfan yr Urdd, ar ol y Nadolig rhwng 8.30 a 10 y bore i athrawes newydd - Llun, Mawrth, Iau a Gwener. Talu tuag at y petrol. M. Horsham Caerdydd 24597.**

### PWYSIG

Mae'r Grwp Dosbarthu yn ceisio gwneud tipyn o ymchwil ymhlith darllenwyr Y Dinesydd i weld pa mor effeithiol y dosberthir y papur. Mae'n hanfodol bwysig i ni gael y wybodaeth hon, felly apeliwn atoch i gwblhau'r isod (gan ateb naill ai A neu B) a'i ddychwelyd at Sian cyn diwedd y mis.

Enw ..............................................................................

Cyfeiriad ..............................................................................

Rwyf/Nid wyf yn danysgrifiwr/gyfamodwr

A. Cefais y copi hwn o'r Dinesydd drwy

..............................................................................

NEU (os ceir anhawster gwirioneddol i'w gael)

B. Dymunaf dderbyn y Dinesydd drwy'r post ☐ (noder gyda ✓ )

Dychweler at: Sian Edwards, 20 Heol Maryport, Rhath, Caerdydd.





DYMA NODI YN EI GAR BACH YN MYND I SIOP DAN EVANS I BRYNU EI ANRHEGION NADOLIG. GWELL I CHI FRYSIO CYN EI FOD WEDI PRYNU'R CWBWL.

**Dan Evans**

*Y BARRI 4242*

# Colofn Sbectol Sian




"Ardderchog" meddai pawb, - "Jest be 'da ni ishio, Cymru fach am gael hawliau o'r diwedd."

Ond faint ohonom sydd wedi sylwi ar y materion hynny yr argymhellodd Kilbrandon i beidio trosglwyddo cyfrifoldeb amdanynt i Gymru, sef yr heddlu, polisi criminal, gweinyddu cyfiawnder, a materion cyfreithiol - sgwn i pam?

Newyddion 1

Anfonwyd llythyr at olygydd y papur hwn, wedi ei gyfeirio at "Bwyllgor y Dinesydd" Caerdydd, yn unig.

Newyddion 2

Cyrhaeddodd pen ei daith yn ddiogel. Da iawn y Swyddfa Bost am unwaith!

Faint ohonoch chi'r merched sy'n mynychu siopau Budgens i gael stampiau y tarian gwyrdd? A faint ohonoch chi sy wedi sylwi tra yno fod y cwmni hwn, a gymerodd Batemans drosodd, wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu busnes. Roedd gweld geiriau Cymraeg ar baced siwgwr, blawd, matsus, ac yn y blaen yn rhoi dipyn o hwb i'r siopwr Cymraeg wrth cwilota am fargeinion ar hyd y silffoedd. Ond mae hi'n ta-ta i'r dyddiau hynny bellach oherwydd nid yw Budgens hyd yn oed wedi cydnabod fy llythyr yn gofyn iddynt gario 'mlaen y polisi dwyieithog.

*Bwyd i'r iaith!!*

Mae committee Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn advertising am players newydd i partisipatio in gems bob Saturday. Plwg bach dwyieithog i'r clwb i fynd gyda'r posteri anferth gwallog yn dwyn slogan mwy anferth byth - "Have boots will play."

Roedd Peter Meazey, perchennog Siop y Triban, yn un o'r bobl hapusaf yng Nghaerdydd diwrnod Y BRIODAS. Pam medda chi? Wel dywedodd fod bore dydd Mercher cystal a bore dydd Sadwrn yn y siop, am y tro cyntaf erioed. "Mae'n amlwg" meddai "nad yw fy nghwsmeriaid i'n edrych ar yr achlysur bythgofiadwy" Diolch i Ann ac i Pete am y sgwrs.

Gyda llaw galwch yno i weld casgliad da o gardiau Nadolig Cymraeg - a prynwch nhw. Wrth son am gardiau Nadolig a finna ar Dachwedd 18fed wedi derbyn fy ngherdyn cyntaf, rhaid rhoi llwy bren y mis i Gyngor neu bwyllgor yr Urdd yng Nghaerdydd am gyhoeddi'r cerdyn Nadolig mwyaf di liw, di ddychymyg ers blynyddoedd.

Cofiwch anfon cerdyn Nadolig i Terwyn Tomos
h.m.p. Caerdydd,
Ffordd Knox,
Caerdydd.
- sy'n gwario'r wyl yng ngwesty moethus ei mawrhydi. Gyrrwch gerdyn yr Urdd i'r wardeniaid.

Nadolig Llawen.

# Gwasg y Dref Wen

Gwasg Gymraeg yng Nghaerdydd yw Gwasg y Dref Wen, ac fe'i rheolir gan frodor o Gaerdydd, Roger Boore. Fe'i sefydlwyd ym 1969, ac erbyn hyn mae wedi ennill cryn enwogrwydd am ei llyfrau lliwgar hardd i blant. Yn ddiweddar dechreuwyd hefyd ar lyfrau i oedolion, ac mae dau o'r rheiny yn cynnwys **Cerddi'r Llygad** gan W. J. Gruffydd a Richard Lewis, eisoes ar werth.



ROGER BOORE

Er bod rhan fwyaf o'i deulu yn Gymry Cymraeg, dysgu Cymraeg fu hanes Roger Boore. Cafodd radd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, a wedi hynny bu'n gweithio yn Llundain am rai blynyddoedd fel Chartered Accountant. Bu'n hoff o lyfrau ac mae newydd gyhoeddi ei lyfr cyntaf o'i waith ei hun, **Ymerodraeth y Cymry.** Mae ganddo dri o blant, ac mae'r ddau hynaf, Gwilym a Rhys, eisoes yn mynd i Fryntaf.

Beth yw cynlluniau Gwasg y Dref Wen at y dyfodol? "Mwy o lyfrau lliwgar i ddechrau," medd Roger Boore, "rhai i blant sy'n dysgu Cymraeg - mae galw mawr a chynyddol am y rhain, a rhai i blant sy'n Gymry Cymraeg. Rhwng hyn a'r Nadolig byddwn ni'n cyhoeddi **Prentis y Dewin,** gan Tomi Ungerer, **Y Chwe Alarch,** a **Popcorn yr Hiporheinoseros** - tri llyfr eithriadol o hardd, a'r prisiau fel arfer, llawer yn is na llyfrau Saesneg cyffelyb. Byddwn ni hefyd yn cyhoeddi **Maigret'n Mynd Adre** mewn cloriau papur - y nofel gyntaf gan Simenon i ymddangos yn Gymraeg. Wedyn, ym 1974, fe ddechreuir cyfres o nofelau i blant, yn cynnwys rhai o awduron mwya blaenllaw'r byd. Ac mae gennym ni un llyfr arbennig iawn ar y gweill, sef llyfr o rigymau a hwiangerddi i blant a gasglwyd gan John Gilbert Evans - dros 400 ohonynt, gyda lluniau. Rwy'n credu y bydd hwn yn glasur."



***

## CYMRO YN LLYFRGELL Y DDINAS

Os ydych chi am ddarllen Y Cymro yn Llyfrgell Ganolog y ddinas, rhaid i chi fynd i'r Reference Library ar y llawr cyntaf a llanw ffurflen cyn cael copi. Tybiai'r Dinesydd fod hyn yn gyfyngiad heb eisiau, ac y dylid cael y papur yn ystafelloedd darllen y Llyfrgell.

Dyma ateb y Llyfrgellydd: "As you no doubt are aware. the City of Cardiff Public Libraries has maintained for many decades a comprehensive collection of Wales/Welsh literature in all forms; it seems logical therefore to maintain the periodical collection as comprehensively as possible by including in it the Cymro and other Welsh papers formerly in the Commercial library. An additional consideration is that there is more reading space in the Reference Library Reading Room in more congenial surroundings and for a marginally longer period per day.

The paper concerned had been withdrawn from space access simply because of the lack of space in the rack; another rack is being obtained, however, and 'on application' papers will be restored to open access when it becomes available."

Wfft i'r teledu a'r gadair esmwyth, anturiwch dros y mynydd i fwynhau **CWMNI DRAMA CAERFFILI**, yn cyflwyno

## DWY DDRAMA FER

yn Ysgol Gyfun Martin Sant ar Nos Wener Ionawr 18fed am 7.30. Tocynnau 25c. a 10c. i blant a phensiynwyr, oddiwrth Mrs. Eiry Palfrey, Penygair, Groes Wen, Caerffili (864037). Gareth Roberts, 9 Gwaun Hyfryd, Caerffili (867365).

# Culverhouse Cross

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 8, yn neuadd Eglwys yr Atgyfodiad, Grand Avenue am ddau o'r gloch, cynhelir Ffair Nadolig er budd amryw o fudiadau Cymreig y cylch. Bargeinion lu, sbort a sbri, cyfle i wario'n ffri - cofiwch ddod yn llu!

*

Dymuniadau gorau'r ardal i Eira a Keith Phillips, Sioned a Manon wrth iddynt ymgartrefu yn y Creigiau.

Mae'r ychwanegiad cyfforddus yng Nghlwb y Wanderers wedi'i orffen bellach, ac ar ôl rhuthr gwyllt y Nadolig a'r Calan dewch atom i ymlacio a threulio noson ddifyr yng nghwmni Max Boyce a Ted Woods a'i fand - Nos Iau, Ionawr 31. "Croeso '74" fydd ar y tocyn, 50c fydd ei bris, ac fe fydd elw at gynnal Ysgol Feithrin Llanfihangel ar Elai. Cewch docynnau oddi wrth Mrs. Maria Tucker (ffon: Wenfo 796) neu unrhyw aelod arall o bwyllgor yr ysgol ond os digwydd i chi gadael hi'n rhy ddiweddar i fachu tocyn - NI fydd CODIAD yn y pris o brynu wrth y drws y noson honno! Bargen yw Bargen!

### YSGOLORIAETH I AWDURON IFANC

Gwahoddir ceisiadau gan bobl sy'n byw yng Nghymru ac sydd o dan 30 (ar Ionawr 1, 1974) sy'n dymuno eu rhyddhau o'u gwaith neu eu hamgylchiadau arferol er mwyn ymgymryd ag ysgrifennu gweithiau llenyddol arbennig mewn rhyddiaith, yn Gymraeg neu Saesneg. Gofynnir i ymgeiswyr i ddangos enghreifftiau o'u gwaith a dylsent fod yn barod i weithio fel awduron llawn-amser am gyfnod o 6 - 12 mis. Am fanylion pellach, danfoner at:

Adran Lenyddiaeth
Cyngor Celfyddydau Cymru,
Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd.

## CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

### CYSTADLEUAETH I FEIRDD IFAINC.

- I feirdd o dan 30 mlwydd oed (ar Ionawr 1, 1974)
- Rhaid i feirdd sy'n ysgrifennu yn Saesneg fod naill ai yn byw yng Nghymru neu a chysylltiadau gwirioneddol a'r wlad hon.
- Ni ddylai cystadleuwyr fod wedi cyhoeddi cyfrol glawr-caled o gerddi.
- Rhaid i'r ymgais gynnwys o leiaf 30 o gerddi.
- Gwobr o £300, a chyhoeddi cyn Nadolig 1974.
- Dyddiad cau Ionawr 12 1974.

Gofynnir i feirdd ddanfon at yr Adran Lenyddiaeth am fanylion pellach cyn danfon gwaith i mewn.
Cyngor Celfyddydau Cymru, Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd. Ffon: 32722.

### YSGOLORIAETH I GYFIEITHYDD.

Gwahoddir ceisiadau gan bobl sy'n rhugl yn y Gymraeg ac mewn un neu fwy o ieithoedd estron (ag eithrio'r Saesneg), ag sy'n dymuno cyfieithu gweithiau o lenyddiaethau eraill i'r Gymraeg, am Ysgoloriaeth y Cyngor i gyfieithydd. Gwerth yr Ysgoloriaeth fydd £1,500 ac fe'i chynigir i gynorthwyo cyfieithydd i dreulio blwyddyn mewn gwlad dramor o'i ddewis ei hun yn ymberffeithio yn yr iaith ac yn cyfieithu gweithiau penodedig o'r iaith honno i'r Gymraeg. Gofynir i ymgeiswyr i ddanfon am fanylion pellach ynglyn a'r cynllun cyn gwneud cais. Dylid cyfeirio ymholiadau at:
Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Llenyddiaeth),
Cyngor Celfyddydau Cymru,
Stryd yr Amgueddfa,
Caerdydd. (Ffon: 32722)

### CYSTADLEUAETH CYFIEITHU I YSGOLION

Gwahoddir disgyblion ysgol gyfieithu stori fer o un o'r ieithoedd a ganlyn i'r Gymraeg: Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Eidaleg a Rwsieg. Cynigir tair gwobr o £100 yr un am y tri chyfieithiad gorau, ar yr amod y gwerir yr arian ar deithio i wledydd tramor; cyflwynir tair gwobr ychwanegol o £25 yr un i ysgolion y tri chyfieithydd buddugol. Cyfyngir y gystadleuaeth i ddisgyblion a oedd rhwng 14 a 17 mlwydd oed ar Fedi'r 1af 1973. Bydd y Gystadleuaeth yn cau ar Fawrth 1af 1974. Dylid danfon am y manylion llawn at Adran Lenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yn Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd. (Ffon: 32722).

# MAES Y PLANT



## NABOD EICH DINAS

**Dyma ichi lun eto o gamera Huw Jenkins ichi grafu eich pen yn ei gylch. Nawr. fe ddylai fod digon o amser gyda chi i ddyfalu ble mae hwn ac anfon yr ateb i mi. Yr enw a'r cyfeiriad yw, W. J. Jones, 46, Crystalwood Road, Caerdydd. Cofiwch. Peidiwch a phoeni os bydd Y Dinesydd yn hwyr yn eich cyrraedd. Rwy'n aros nes y funud olaf, rhoi enwau pob un mewn het ac yna rwy'n dewis un enw. Ac mae rhai ohonoch chi'n anfon llythyron diddorol i mi. Er enghraifft, dyma sgrifennodd Lowri ap Robert o Benarth wrth ymateb i gystadleuaeth mis Hydref. Chi gofiwch mai ffynnon yfed yn y Ganolfan Ddinesig oedd yr ateb...**

*Cofiaf pan oeddwn yn blentyn bach i'm mam beidio a'm gadael i yfed ohono a minnau'n meddwl ei fod yn neilltuol o bert.*

*Rwy'n byw nawr ym Mhenarth ond rwy i wedi bod yn byw yn ymyl Parc y Rhath. Rwy'n aelod o ddosbarth 2T yn ysgol Rhydfelen. Mwynhaf ddarllen llyfrau Dylan Thomas, Monica Dickens ac Agatha Christie. Fy hoff bwnc yw Saesneg, er na fedraf ddeall popeth am adferfau. Rwy'n eithaf leicio Cymraeg ond am Ladin ac Ymarfer Corff . . .! Caf eithaf trafferth yn y gwersi Daearyddiaeth ond ni fethaf yn gyfangwbwl mewn unrhyw bwnc. (Arhoswch i mi gael canlyniadau'r prawf Cemeg!) Nol i'r ysgol eto dydd Llun a'r gwaith cartref yn dal heb ei wneud! Mi gefais hanner tymor pur foddhaol ar y cyfan. Yn drist iawn, bu farw fy Nhaid wythnos ddiwethaf a rhaid oedd i mi fynd i'r angladd a'i wasanaeth coffa. Diwrnodau eraill, rwy i wedi bod yn mynd i Gaerdydd oherwydd diflastod a fory rwy'n mynd i Cowbridge Road i gael torri ngwallt. Diolch am y gystadleuaeth (gobeithio cael mwy yn y dyfodol). Yr eiddoch yn gywir, Lowri ap Robert (12 oed).*

Ac mae'n ymddiheuro am ei hysgrifen fler. Raid ichi ddim, Lowri. Byddaf yn falch clywed wrthych chi eto. Beth am ysgrifennu rhywbeth yn arbennig i dud ennu rhywbeth yn arbennig i dudalen y plant? Yn enwedig gan eich bod mor hoff o sgrifennu.

### NODION O FRYNTAF

Ar y deuddegfed o Ragfyr, mae plant Bryn-taf yn cynnal eu gwasanaeth Nadolig. Fe'i cynhelir yn eglwys Dewi Sant, St. Andrew's Crescent. Fe fydd yn hyfryd gweld yr eglwys yn llawn o blant Cymraeg a chlywed canu carolau Cymraeg yng nghalon y ddinas.

Ar yr ail ar bymtheg o Ragfyr cynhelir cyngerdd yr ysgol. Fe'i cynhelir yn Neuadd Coleg Cyncoed ac estynnir croeso cynnes i bawb. Uchafbwynt y noson fydd Pasiant mawreddog sy'n seiliedig ar sir enwocaf Cymru, Sir Aberteifi. Fe hudwyd rhai o'r plant gymaint gan eu trip i Langrannog yn ddiweddar fel na allen nhw ddim peidio a threiddio'n ddyfnach i hanes y sir. Fe ddylai hon fod yn noson i'w chofio i bawb.

**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**

**GWASANAETH I'R YSGOLION**

**Ysgrifenyddes**

**Gwahoddir ceisiadau am y swydd o ysgrifenyddes i Swyddog Uwch y Gwasanaeth i'r Ysgolion. Rhaid wrth gymwysterau addas mewn llawfer a theipio ynghyd a phrofiad mewn dyletswyddau gweinyddol. 18 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd a 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus. Cynllun blwydddal cyfranol. Cyflog ar raddfa swyddog cyflog - £1,379 oed 25 hyd at uchafswm o £1,681. Manylion pellach a ffurflenni cais oddi wrth yr:**

**Ysgrifennydd,**
**Amgueddfa Genedlaethol Cymru,**
**Caerdydd CF1 3NP**

**Dylid anfon ceisiadau i mewn erbyn Rhagfyr 31ain 1973.**

## PLANNU COED

Roedd plant Capel Minny Street wedi bod yn meddwl yn aml mai da o beth fyddai cael rhywbeth i'w hatgoffa o'r gwanwyn o gwmpas y capel, a chan ei bod yn awr yn 1973, fe gawsant syniad. Plannu coeden!

Drwy lwc, roedd Mr Owen o'r Comisiwn Coedwigo yn aelod yn y capel ac yn arbenigwr ar sawl math o goed. Felly, gyda'i gyfarwyddyd ef, prynwyd coedeı gyfarwyddyd ef, prynwyd coeden *Hornbeam* (y plant yn casglu'r arian) ac aed ati i'w phlannu yn ymyl y capel. Drwy lwc, roedd nifer o'r heolydd o gwmpas wedi cael eu troi'n unffordd ac roedd hyn wedi gadael llecyn cyfleus i'r goeden. Fe gafwyd tipyn o hwyl ar y plannu, ac fe ofalodd yr aelodau hyn fod y plant yn cael coffi a bisgedi ar ol eu llafurwaith. Nawr, brysied y gwanwyn!

## Stori

Glywsoch chi am yr ornest fawr rhwng yr hipo a'r gwybedyn? Credwch neu beidio, y gwybedyn enillodd. A dyma sut y llwyddodd e.

Fe drefnwyd yr ornest mewn llannerch yn y goedwig, ac fe ddaeth miloedd .o anifeiliaid i'w gweld, a neb yn meddwl fod gan y gwybedyn obaith i ennill. Wir, fydden nhw ddim yn ymladd o gwbwl oni bai i'r gwybedyn (oedd yn dipyn o fostiwr) ddweud y gallai e ymladd yn well na hipo.

Beth bynnag gafodd y llew fod yn reffari, ac fe aeth yr anifeiliaid eraill yn gylch mawr. Fe ganodd y ceiliog a dyma'r ornest yn dechrau.

Fe ddaeth yr hipo o'i gornel fel bocsiwr go iawn, gan sefyll ar ei ddwy droed ôl a chodi'i ddwy droed flaen i fyny - a chwilio am y gwybedyn.

Fel y gwyddoch chi, roedd hwnnw'n medru hedfan, ond doedd hi ddim yn hawdd i'r hipo'i weld e. A chan fanteisio ar hyn, fe aeth y gwybedyn ar ei union i ffroen dde'r hipo a thynnu'n galed ar flewyn pedd yn digwydd tyfu yno.

A fedrai'r hipo, druan, ddim peidio a thisian.


Fe fu bron a chwythu'r gwybedyn o'i drwyn e, ond fe ddaliodd yn y blewyn, ac wedi i hipo orffen tisian, dyma fe'n tynnu eto - nes peri i'r hipo disian yn waeth fyth.

A dyna oedd dechrau - a diwedd yr ornest. Cyn pen dim amser roedd yr hipo'n rowlio ar y ddaear ac yn tisian nes bo dagrau'n rowlio i lawr ei fochau. Ac o'r diwedd, dyma fe'n dweud wrth y gwybedyn mai fe oedd wedi ennill.

### LESNS JOGRAFFI

Athro: Tomi, beth ych chi'n galw pobol Loeger?
Tomi: Saeson, syr.
Athro: Beth ych chi'n galw pobol Malta?
Tomi: Maltesers!

**Ysgol Feithrin Llandaf, Noson hen Nadolig, nos Sadwrn Ionawr 5ed, 7.30 yn y Chapter, Market St., Canton. Adloniant o dan ofal Dr. Meredydd Evans.**
**Cawl a chyfleth. Tocynnau 60c. oddi wrth M. Horsham, Caerdydd 24597. N. Meazey, Caerdydd 387749. D. Hicks Caerdydd 564222.**




## SEREN RYFEDD

Fedrwch chi ddim mynd trwy dymor y Nadolig heb feddwl am ser. Seren a arweiniodd y tri gwr doeth at fan geni Iesu Grist. Yn wir, mae rhai pobl yn dweud mai mathemategwyr oedd y tri gwr doeth - rhai oedd yn astudio'r ser. Gan wybod hynny, tybiais mai peth da fyddai gwneud rhai ohonoch chi'n bobol ddoeth yn ystod y Nadolig hwn. Edrychwch ar y seren yma.

Seren a naw o gylchoedd ynddi hi. Mae'r ffigurau a welwch o'i chwmpas wedi dianc i'r gofod a'ch camp chi yw rhoi pob un yn ol yn ei le priodol. Ond rhaid i gyfanswm ffigurau pob rhes fod yn 20.

Os methwch chi, fyddwch chi ddim yn ddoeth! Ond fe fedrwch droi i dudalen 8 i gael yr ateb.

## HELPWCH Y DYSGWYR

**Mae nifer o bobl yn dal i dynnu gwynebau hir ar ôl ffigurau y cyfrifiad dwetha' a nifer wedi gwneud areithiau huawdl amdanynt ond tybed a ydynt wedi gwneud rhywbeth ymarferol am y peth. Mae'n rhaid os yw'r Gymraeg i fyw o gwbl i ni ennill miloedd ar filoedd o bobl i ddod i siarad Cymraeg yn ystod y blynyddoedd nesaf yma. Mae'n siwr fod tua 500 yn dysgu Cymraeg yn y ddinas ar hyn o bryd — hynny yw oedolion mewn dosbarthiadau nos. Da iawn meddech ond pan gofiwch fod y mwyafrif mawr yn ddechreuwyr — ychydig iawn o wahaniaeth mae'r rhain yn mynd i'w wneud mewn dinas o chwarter miliwn. Fe ddylai fod o leiaf 5000 o ddysgwyr yng Nghaerdydd cyn y gallwn ddweud o ddifrif fod y rhagolygon yn dda.**

Wel beth am i bawb ohonom fynd ati i droi un Cymro di-Gymraeg yn Gymro Cymraeg. Fe fyddwn i yn hoffi ceisio cychwyn drwy gymorth y Dinesydd ar Gynllun Mabwysiadu Dysgwr. Dyma'r cynllun:— Mae angen i bawb i ddod o hyd i berson sy am ddysgu Cymraeg ond am amryw resymau sy'n methu mynd i ddosbarth nos yn gyson. Ar ôl gwneud hyn fe ddylech drefnu i'r person hwn ddod bob wythnos i'ch ty am o leiaf awr er mwyn cael sgwrs. "O fedran ni ddim dysgu neb" meddech "ydw i ddim yn athro". Does dim rhaid — mae llyfrau ar gael nawr sydd wedi ei llunio i ddysgwr fedru dysgu ar ben ei hun — cyrsiau fel 'Dewch i siarad' gyda'r Uned Iaith yn Nhrefforest a gyda Dan Lyn James — Cwrs Cymraeg Llafar ac yn y blaen. Beth amdani dwedwch? Oes yna bosibilrwydd mewn cynllun fel hyn? Mae'n argyfwng enbyd ar yr iaith ac os na wnawn rhyw ychydig o ymdrech i geisio cael mwy o bobl i siarad yr iaith — yna caewn ein cegau am sefyllfa'r iaith a gadael iddi farw'n dawel.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cynllun fel hwn — ffeindiwch berson sy a sgrifenwch ataf ar unwaith, 54 Fidlas Rd., Llanishen, ac fe drefnaf gyfarfod i drafod manylion a chynlluniau. Mae'n amser y Nadolig — dyma adduned newydd i chi —

"Yn 1974 rwyn mynd i droi un Cymro di-Gymraeg yn Gymro neu'n Gymraes Gymraeg."

**John Albert Evans.**

### LLUN 'DINESYDD' TACHWEDD

Tybed faint ohonoch chi lwyddodd i adnabod llun Tachwedd? Yn fy marn i, roedd yn hawdd i'w adnabod. Ond os na fuoch chi'n llwyddiannus, ewch o gwmpas castell Caerdydd ac edrych yn ofalus ar y tyrau.

CYSODI ELGAN

*Papurau Newydd, Llyfrau, Pamphledi etc. etc.*

*Os ydych am fwy o wybodaeth galwch i fewn yn*
**9, FITZALAN PLACE, CAERDYDD. Ffôn: 25869.**

## HEL STRAEON

*Bydd "Hel Straeon", llyfr hir-ddisgwyliedig Gwyn Llewelyn ar waith yn y Wasg a Theledu yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi y mis hwn gan Wasg Gomer. Dyma lyfr cyntaf gan awdur sy'n llawer mwy adnabyddus fel cyflwynydd "Y Dydd", rhaglen nosweithiol HTV. Cychwynodd ei yrfa newyddiadurol yn un-ar-bymtheg oed fel cyw-gohebydd i'r "North Wales Chronicle" ym Mangor a daeth i Gaerdydd ym 1962 yn is-olygydd ieuengaf y "Western Mail". Yn y brifddinas mae wedi mwynhau byw byth oddiar hynny. Mae ei gartref yn Culverhouse Cross, a'i wraig Luned yn weithgar gydag achos Ysgol Feithrin Llanfihangel-ar-Elai lle mae eu dau blentyn, Sion Gwyndaf a Siwan Linor yn mynd bob dydd.*

*(Cyhoeddir "Hel Straeon" mewn llawn bryd i wneud anrheg Nadolig delfrydol yng Nghyfres Llyfrau Poced Gomer, Pris 40c.)*



GWYN LLEWELYN

### MARWOLAETH

Mrs. M. E. Davies - ar ddydd Mercher, Tachwedd 14eg bu cynhebrwng Mrs. M. E. Davies priod Mr. Gwyn L. Davies, Ardwyn, Rannoch Drive, Cyncoed, a chyn brifathro Ysgol Tywyn, Meirionnydd. Symudodd y ddau i Gaerdydd ar ymddeoliad Mr. Davies saith mlynedd yn ol. Yr oedd Mrs. Davies yn aelod o Gor y Tabernacl ac yn fawr ei diddordeb mewn gweithgareddau cerddorol. Ged briod, merch (Morfudd) a mab (Peter) i alaru ar ei hol.



*Alun Guy arweinydd Cor Aelwyd Caerdydd yn egluro pwynt cerddorol i nifer o is-lywyddion y Cor a ddaeth ynghyd i weld yr ymarfer, i gael paned efo'r Cor yn Conway Road.*


OS AM GYSODI AC ARGRAFFU PAMFFLEDI
TOCYNNAU, PAPURAU – UNRHYWBETH
CYSYLLTWCH Â

**Mid-Wales Litho**

NEW RD. CRUCYWEL, SIR FRYCHEINIOG.
Ffôn CRUCYWEL 302



YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref...

Dewiswch o'r gwlau, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wlau a chelfi.

**Ni yw'r arbenigwyr**

**Sleep & Light Centre**

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos 9 a.m.–5 p.m.
NOSON HWYR – NOS IAU HYD 7.30 p.m.





NOSON Y BONEDDIGESAU.

Roedd hi'n noson fawr yn neuadd bentref Rhiwbeina ar Sadwrn, Tachwedd 17. Gwragedd heirdd gwyr y Cylch Cinio yn cael noson ar gorn yr hogiau, ac yn mwynhau y croeso. Pryd o fwyd da ei flas, ac adloniant di-hafal gan Charles Williams, Meredydd Evans, Sian Emlyn a Siwan Jones, Ac fe enillwyd cystadleuaeth y llinell goll gan arch-fardd y cwmni, Mr. Alun Oldfield Davies. Rhennir elw'r noson rhwng achosion Cymreig yn y ddinas.

*

DARLITH FLYNYDDOL YSGOL GYFUN RHYDFELEN.

Mae'r ddarlith hon, a oedd i'w chynnal ar Dachwedd 16, wedi ei gohirio hyd Ionawr 1974, y darlithydd eleni fydd y Dr. Ben Thomas, Caerdydd.

*

CYMDEITHAS LENYDDOL CAERDYDD.

Cafwyd yr ail o'r darlithiau i ddathlu penblwydd 80 oed Saunders Lewis ar Dachwedd 14, pan wrandawodd tyrfa sylweddol iawn at Dafydd Glyn Jones o Fangor yn trafod Llenyddiaeth Boliticaidd Saunders Lewis.

*

Darlith feistrolgar oedd hon, nes peri i ddyn ddymuno cael bod o gwmpas y lle pan oedd 'Cwrs y Byd' S.L. yn y Faner yn ei anterth yn y pedwar degau. Sylwadaeth fachog hefyd ar gyfraniad y gwr mawr hwn i wleidyddiaeth y cyfnod. I'r sawl a fynn ddarllen ymhellach, gweler ysgrif odidog Dafydd Glyn Jones yn 'Presenting Saunders Lewis.'

Bydd y drydedd yn y gyfres yn cael ei thraddodi ar Ragfyr 12, yng Ngwesty'r Parc gan Yr Athro A. O. A. Jarman ar y testun "Dylanwad yr Ysgol Fomio ar lenyddiaeth Cymru."

CYLCH CINIO CAERDYDD

Cafwyd dau ŵr gwadd yn ystod mis Tachwedd, sef Mr Wynne Lloyd, o Adran Ysgolion y BBC. Cafwyd ganddo ffeithiau syfrdanol am ymateb y cyhoedd i'r gyfres dysgu Cymraeg sydd nawr ar BBC2, a hynny yn rhith miloedd o lythyrau o bob rhan o Brydain oddiwrth wylwyr brwdfrydig. Ni fu'r fath ymateb erioed o'r blaen.

Yr ail siaradwr gwadd oedd Mr Cyril Hughes, sydd bellach wedi esgyn i swydd Cyfarwyddwr Cwmni'r Urdd yn y pencadlys yn Aberystwyth. Da y gwyr rhai am y cynlluniau newydd sydd ar droed gan y mudiad hwn i ehangu ei weithgarwch, ac i gyfrannu mwy eto i faes dysgu ail iaith yng Nghymru.

*

PERSONOL

Sorri Cip - Geraint Huws.

Cymysgedd o dristwch ac o lawenydd ddaeth trosom pan glywsom fod Mr. Alun Jones, Cefncoed Gardens wedi'i benodi'n rheolwr banc yn Llandudno – llawenydd oherwydd ei lwyddiant, a thristwch oherwydd y byddwn yn ei golli ef a Mrs. Jones a hefyd Elsbeth Mair a Gareth o'n plith. Byr fu arhosiad Mr. Jones a'i deulu yn y brifddinas, ond yn yr amser byr hwn, fe fu Mr. Jones yn gymwynasgar iawn i ni ac ef oedd Trysorydd Cymdeithas Rhieni Bryn-taf y llynedd, ac ef yw Trysorydd y Dinesydd. Drwy lwc, fydd y teulu ddim yn symud i'r gogledd tan y gwanwyn.

*

Mae Mr a Mrs John Price a'i deulu, Heol Ty Draw yn mynd i'n gadael gyda hyn. Mae Mr Price wedi derbyn swydd fel rheolwr canolfan chwaraeon yn Yeovil, Gwlad-yr-haf. Fe fydd nifer ohonoch yn gyfarwydd a llais Mr Price gan ei fod wedi bod yn darlledu'n rheolaidd am flynyddoedd ar fyd Sbort ar y BBC. Mawr hyderwn y caiff swydd a'i dena'n ôl i Gymru cyn hir.

Mae Dr a Mrs Eirian Williams (Telynores Ardudwy) wedi penderfynu gadael y brifddinas a mynd i fyw i'r gogledd. Mae'r Dr Jones wedi bod yn feddyg yn Ysbyty'r Brifysgol, Y Waun, ond mae yn Nigeria ar hyn o bryd. Pan ddaw'n ol i Gymru, fe fydd yn mynd i weithio yn Ysbyty Mon ac Arfon. Fe fydd yn chwith gan sawl cymdeithas golli swn tannau telyn Telynores Ardudwy lawr yng ngwlad yr hwntws.

*

"EL GRAND TORO!"

Da clywed fod Deryk Williams, 84 Windermere Avenue, Caerdydd, gynt o Wedal Road, wedi gwella'n dda ar ol amrywiol brofiadau ar gyfandir Ewrop. Deallwn iddo adael ei ol yn y Grand Hotel, Katowice, ar y "Warsaw Express", yn yr Hotel Flamingo, Playa de Palma ac yng nghantin y BBC. Dan law dyner y Dr Barnado daeth ato'i hun yn weddol, a chafodd gadarnhad pellach gan arbenigwyr Ysbyty'r Brifysgol na fydd cadair cynhyrchydd yn debyg o fynd yn wag yn swyddfa "Heddiw" am rai blynyddoedd.

*

Llongyfarchiadau i Mr. Iwan Jones, Y Bwthyn, Llaneurwg ar ei benodi yn Swyddog Cadwraeth yn yr Amgueddfa Werin. Bu Mr. Jones yn athro ysgol am y deuddeng mlynedd diwethaf, a gwnaeth gryn enw iddo'i hyn fel arbenigwr ar injyns stem. Pob hwyl iddo ar y gwaith newydd.

# Cyfarfod Penaethiaid Adrannau Cymraeg

Gwesty'r Parc. Nos Fawrth 13 Tachwedd.

**Yng ngwyneb y ffaith mai U.C.A.C. yw'r unig gymdeithas sy'n ymladd dros hawliau'r Gymraeg a buddiannau'r athrawon hynny sy'n ei dysgu yma yn y brifddinas 'roedd hi'n briodol felly i'r cyfarfod uchod gael ei drefnu gan gangen Caerdydd o'r undeb. Ar ôl ymgyrch galed yn erbyn polisi Cymraeg Caerdydd ers dros flwyddyn teimlad cyffredinol y gangen oedd fod y broblem hon yn ymestyn i'r ysgolion uwchradd y flwyddyn nesaf. Hefyd, yn ystod y flwyddyn nesaf fe ymunai Caerdydd a rhan helaeth o Forgannwg i greu'r awdurdod newydd. Penderfynwyd felly alw cyfarfod o benaethiaid adrannau Cymraeg ysgolion uwchradd i drafod ymhellach ddyfodol y Gymraeg.**

Roedd cynrychiolwyr o Gaerdydd a Phenarth (a ddaw'n rhan o awdurdod newydd De Morgannwg) yn bresennol, ac ar ôl trafodaeth frwd daeth dau brif bwynt i'r amlwg. Yn gyntaf datganwyd peth pryder ac anfodlonrwydd a'r polisiau presennol yn enwedig yng Nghaerdydd. Cafwyd adroddiad dro ar ôl tro o'r cam a wneir a'r Gymraeg yn yr ysgolion uwchradd - y dewis dibendraw rhwng Cymraeg a ieithoedd estron. Daw'r dewis mewn rhai ysgolion ar ôl y flwyddyn gyntaf, ac wedyn ar ol yr ail flwyddyn hefyd.

Gan nad yw'r Pwyllgor Addysg Newydd wedi penderfynu ar y polisi Cymraeg 'roedd peth pryder ynglŷn â hyn hefyd. Beth fydd y polisi? - Dilyn polisi Caerdydd, un Morgannwg, cyfuniad o'r ddau, neu gawlach di-synwyr yn dibynnu ar fympwy daliadau personol y prifathrawon - fel ag sy'n bodoli yn ysgolion cynradd Caerdydd ar hyn o bryd. A fydd Cymraeg yn orfodol am y ddwy flynedd gyntaf yn yr ysgolion uwchradd fel ym Morgannwg? Os hynny beth a ddigwydd i'r plant hynny a ddewisodd i beidio dysgu Cymraeg yn yr ysgolion cynradd? Os na, beth sy'n digwydd iddynt? Os mabwysiedir polisi Caerdydd, a yw athrawon Morgannwg yn mynd i ddioddef y newid?

Efallai fod llygedyn o obaith gan fod yr awdurdod newydd wedi pasio i apwyntio trefnydd Iaith dros y Gymraeg yn unig - peth chwildroadol i Gaerdydd os nad i Forgannwg! a hefyd sefydlwyd pwyllgor ymgynghorol i edrych i mewn i'r problemau hyn. Yng ngŵydd y datblygiadau yma cytunodd aelodau'r cyfarfod ar y penderfyniad canlynol:

Fod y pwyllgor hwn yn gofyn i awdurdod newydd De Morgannwg dderbyn dirprwyaeth o 4 aelod Mri. Moelwyn Preece, Gwyn Jarvis, Alwyn Prosser a Penri Treharne i gyfarfod a'r pwyllgor newydd i drafod y sefyllfa.

Penderfynwyd hefyd ofyn i U.C.A.C. gasglu gwybodaeth am gyflwr a gweinyddiaeth dysgu Cymraeg yn ysgolion Caerdydd i gynorthwyo'r ddirprwyaeth.

**Ken Williams.**

# Clinig Deintol Cymraeg

Duw a wyr, fe fu'r clinig deintol yn achos gwlychu gwely a pheidio a mynd i'r ysgol mewn llawer achos. Erbyn hyn mae llawer mwy o bwyslais ar gael plant i fynd i weld y deintydd yn ifanc, cyn bod eisiau gwneud dim i'w dannedd fel arfer. Fel hyn mi ddon nhw i adnabod a chyfeillachu a'r deintydd ac i dderbyn mai rhywbeth normal, megis mynd at y barbwr, ydi mynd i weld y deintydd. Hwyrach ichi weld hysbyseb y Cyngor Iechyd Deintol yn Gymraeg, yn annog plant i ofalu am eu dannedd. Wedi'r cyfan, mae gymaint o fwyta melysion fel bod llawer o blant yn gorfod cael dannedd gosod erbyn eu bod yn chwech! Ac mae cadw'ch dannedd o bwys i'ch iechyd yn gyffredinnol.

Yn Ysbyty Athrofaol y Waun, fe wnaeth yr Adran Deintyddiaeth Plant lawer o arloesi yn eu maes, ac fe wnaed llawer iawn ganddyn nhw dros iechyd deintol plant dan anfantais o unrhyw fath, gan ddechrau gwasanaeth i ysbytai anfantais meddwl, er enghraifft, yng Nghwm-bran, Trelai, Caerdydd a Hensol. A'r ferch o ddeintydd sy'n gofalu am hyn ydi Miss Enid Roberts, o Benrhyndeudraeth yn wreiddiol. A hithau'n gweithio dan Mr. Swallow sy'n bennaeth yr adran, ac yn Sais a ddysgodd garu Cymru. Aeth enwogrwydd yr adran a'i gwaith ar led, a haeddant bob clod.

Un o'r gwasanaethau arferol a gynigir gan yr adran ydi Clinig Deintol Cymraeg, ac yno fe all plant Cymraeg eu hiaith o leia beidio a chael anhawster dianghenrhaid o ddiffyg iaith, wrth iddyn nhw wynebu'r profiad gofidus o ymweld a chlinig dieithr. Tystia llu o famau i werth y gwasanaeth hwn, a gobeithio y pery'n hir. Os caiff Mr. Swallow a Miss Roberts eu ffordd, fe fydd y clinig hwn yn elfen barhaol yn Ysbyty Ddeintol ein gwlad.

# Y Tabernacl

Dyddiadau i gadw mewn cof.

Chwefror 16 : Corau Richard Williams Tonyrefail. Côr Meibion. Côr Merched a Chôr Plant.

Chwefror 22 a 23 : Dewch yn llu i "Barti Ddu" - ein Pantomeim Ffantastig.

Ebrill 6 : "Dioddefaint Sant Ioan" J. S. Bach. Côr y Tabernacl a cherddorfa.

Cyfeiriad a rhif teliffon Ysgrifennydd Newydd y Tabernacl:
D. Eurig Evans,
24, Cefn Carnau Road. Heath.
Tel: Caerdydd 757326.

Llongyfarchiadau iddo hefyd ar ei benodiad yn ddirprwy brifathro ysgol 'Radnor Road'. Pob llwyddiant iddo yn y gwaith.

Roedd gan y Tabernacl organydd newydd fore Sul, Tachwedd 18. Llongyfarchiadau i Gwilym Davies am chwarae mor dda ac am ei ddewrder o flaen nifer o organyddion profiadol! Mab i'r Parch. a Mrs. Dafydd G. Davies yw Gwilym ac aelod o'r chweched dosbarth yn Ysgol Rhydfelen. Mae nifer o bobl ifainc y capel, yn fechgyn ac yn ferched yn barod i gymryd eu tro wrth yr organ. Mae'n dyled yn fawr i Mr. Arwel Hughes am roddi o'i amser i'w hyfforddi.



*Syr Geraint Evans gyda Chôr Plant Tonyrefail, yn rhaglen HTV. Cymru 'Celebration', a dデledir ar ddydd Nadolig.*

# PUGWASH

Cymeriad adnabyddus iawn i blant sy'n darllen storiau Saesneg yw Capten Pugwash. Bellach mae hanes y mor-leidr enwog hwn i'w gael hefyd yn Gymraeg, diolch i gwmni newydd o gyhoeddwyr, Pridgeon Publishers, ac i Mrs. Gwenllian Gwyn Jones o'r Eglwysnewydd, a gyfieithodd y stori i'r Gymraeg.

Mae Tim Pridgeon a'i wraig Margaret, yn haeddu pob cefnogaeth gennym ni'r Cymry. Saeson ydyn nhw sydd wedi sylweddoli bod angen am fwy a mwy o lyfrau plant yn Gymraeg ac wedi penderfynu arbenigo mewn cyhoeddi trosiadau Cymraeg o 'glasuron' Saesneg. Erbyn Nadolig bydd nifer dda o'u cyfrolau newydd nhw ar y farchnad, y mwyafrif ohonyn nhw wedi'u cyfieithu gan Gwenllian Gwyn Jones. Yn eu plith mae "Capten Pugwash". stori'r mor-leidr mwyaf dewr a mwyaf golygus yn y byd - yn ei dyb ef ei hun! - a "Stori'r Feipen", stori draddodiadol am feipen a dyfodd mor fawr nes bod angen llawer o help ar yr hen wr a'i plannodd i'w thynnu o'r pridd.

Mae Gwenllian Gwyn Jones sy'n athrawes yn Ysgol Fabanod Gabalfa - yn hen gyfarwydd a llunio storiau i blant, a bu'n sgrifennu'n gyson i'r comic "Hwyl" am flynyddoedd am gampau'r llygod bach direidus, Minti a Monti, Bu'n dipyn o ras, meddai hi, i orffen y gwaith mewn pryd i ddal marchnad y Nadolig, yn enwedig o gofio bod diwyg y llyfrau Saesneg gwreiddiol a'r lluniau gwreiddiol hefyd i fod i'w cadw, ac felly bod y trosiad Cymraeg i ffitio bob tro i'r un nifer o linellau ag oedd yn y cyfrolau Saesneg - a hyn yn golygu weithiau cyfri geiriau a hyd yn oed llythrennau.

Mae ei gwr hefyd wedi sgrifennu nifer sylweddol o lyfrau i blant - y mwyaf diweddar yw'r gyfrol ddiddorol "Glan y Mor" - ac ynghanol ei brusurdeb yn llunio enseiclopidia i blant, y cyntaf o'i fath yn Gymraeg, bu yntau hefyd yn cynorthwyo i drosi cyfrolau eraill a gyhoeddir gan Pridgeon Publishers. Daeth "Lle mae'r Pethau Gwyllt yn Byw" o'r wasg eisoes, a daw eraill eto cyn bo hir.


## CÔR POLIFFONIG CAERDYDD

*Arweinydd:* Roy Bohana.

## CYFRES GYNGHERDDAU YN EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF

1. **Sadwrn, Hydref 20, 1973 am 8.0 p.m.**
   Vesperae Solennes — Mozart
   Paukenmesse — Haydn

2. **Sadwrn, Rhagfyr 8, 1973 am 8.0 p.m.**
   Cerddoriaeth ar gyfer y Nadolig.

3. **Sadwrn, Chwefror 16, 1974 am 8.0 p.m.**
   Cerddoriaeth y cyfnod poliffonig.
   *Arweinydd:* Marin Constantin.

4. **Sadwrn, Mawrth 9, 1974 am 7.30 p.m.**
   Messiah — Handel.

Tocynnau cyfres £2.50, noddwyr £5.00, tocynnau sengl 50c. a 75c. ar gael oddi wrth Mr. J. M. Williams, Argoed, Craig Pen-llin, Y Bont-faen, rhif tel. Y Bont-faen 3623.



9½ %

*y flwyddyn*

**11 mis o rybudd i dynnu allan**
**Lleiafswm i agor cyfrif £100**
**Gellir talu llog heb dynnu treth incwm oddi wrtho.**
**Banc Masnachol Cymru Cyf.**
114 - 116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd
Tel: 396131
Cofrestrwyd yn Lloegr: Rhif 1002110
Anfoner y manylion os gwelwch yn dda.
Enw ..............................
Cyfeiriad ........................

**Rydan ni'n ceisio hel arian ar gyfer ein dyfodol.**

**Y broblem? Cael hyd i le diogel i ddodi'r arian.**

**Waeth heb na'i gladdu yn yr ardd gefn – fe fydd y ci wedi dod o hyd iddo.**

**Waeth heb na'i guddio o dan y llawr – fe fydd rhywun wedi ei ddwyn.**

**Yr ateb? Cyfrif Cadw yn y Midland.**


**Mae'n cynilion yn tyfu; d'oes dim temtasiwn i'w gwario; ac mae nhw'n ennill llogau i ni.**

Os am hel at ddiwrnod glawog (neu at wyliau haf hyd yn oed) galwch yn y gangen agosaf o'r Midland—yn fuan.

**Banc Midland**



# Tamaid Blasus



gan Eirwen Davies.

**Fe fyddwch wedi gorffen y paratoi ar gyfer y Nadolig erbyn hyn rwy'n siwr, ac er gwaetha'r prisiau uchel fe fyddwch rywsut wedi llwyddo i gael y twrci y pwdin a'r deisen. Rhaid yn awr gwneud ychydig i fynd ymhell neu gynilo tipyn ar ol y gwario mawr. Gwnewch y prydau yn faethlon a deniadol drwy amrywio'r dulliau o baratoi'r bwyd. Dyma rai syniadau – gellir defnyddio cig gŵydd, hwyaden neu gyw iar yn lle'r twrci.**

### 'SALAD TWRCI

Calon wen bresychen, 1–2 llond llwy bwrdd o gennin syfi 2owns sglodion cnau almon, grawnwin gwyrdd (rhai bach heb ddincod os yn bosib). Dresin ffrengig, (2 llond llwy bwrdd finegr.) Pinsiad o halen, pupur, siwgwr a mwstard, twrci oer.

1. Torri'r fresychen yn fan, malu'r persli a'r cennin syfi.
2. Os oes angen, haneru'r grawnwin a thynnu'r dincod.
3. Torri'r cig yn ddarnau bach a'i roi mewn powlen gyda'r fresychen, y persli, y cennin syfi a'r cnau almon.
4. Cymysgu cynhwysion y dresin ffrengig mewn hylifwr trydan (neu mewn potel fach a chaead arni a'i hysgwyd yn dda).
5. Ychwanegu'r dresin ar y salad a'i roi yn y cwpwrdd oer am beth amser.
6. Rhoi'r salad mewn dysgl fawr neu mewn powlenni unigol.

### PIMENTOS WEDI EU STWFFIO

Twrci, hwyaden neu gyw iar oer. ½peint o saws gwyn tew, 2 owns o fenyn neu fargarin, 2 owns o flawd, pupur a halen, ½ peint o laeth/i sgell, 2–4 owns o fadarch wedi eu coginio 4 pimento gwyrdd.

Torri'r pimentos yn eu hanner ar eu hyd a thynnu'r hadau.

2. Lledferwi'r haneri mewn dwr halen.
3. Codi'r haneri yn ofalus o'r dwr a'u gosod mewn dysgl gwrthwres wedi'i hiro a margarin.
4. Toddi dwy owns o fargarin mewn sospan, ychwanegu'r blawd a'i goginio am ychydig heb iddo frownio, ychwanegu'r llaeth yn araf, yna ei ferwi am 1–2 funud.
5. Torri'r cig a'r madarch yn fan a'u rhoi yn y saws. Ychwanegu pupur a halen.
6. Llenwi'r pimentos a'r cymysgedd hwn a'u cynhesu mewn ffwrn gymhedrol 15-20 munud.
7. Ysgwyd ychydig o bupur coch ar wyneb pob un neu rhoi sbrigyn o bersli yn y canol.

### TWRCI A REIS

6 owns o dwrci oer, 2 owns o fenyn, 1 winwnsyn mawr, 8 owns reis patna, 1 peint isgell (wedi ei wneud o'r sgerbwd neu defnyddio'r ciwb) pupur a halen, 2 owns rhesin 1 pwys o selsig porc, persli.

1. Toddi'r menyn mewn sospan a ffrio'r winwnsyn heb ei frownio.
2. Ychwanegu'r reis a'i ffrio am ychydig.
3. Ychwanegu'r isgell, y pupur a'r halen a'i ferwi.
4. Rhoi'r caead ar y sospan a berwi'r cwbwl yn araf am 15 munud i ddigoni'r reis (fe fydd y reis wedi chwyddo a sugno'r dwr).
5. Ffrio'r selsig mewn ychydig o saim.
6. Torri'r cig yn ddarnau bach a'u cymysgu gyda'r rhesin yn y reis, a'i gadw'n gynnes.
7. Rhoi'r cymysgedd mewn dysgl addas, a gosod y selsig ar yr wyneb ac addurno gyda phersli cyn ei roi ar y bwrdd.

### TWRCI MEWN CYTEW A SAWS CYRRI

4 owns o flawd, pupur a halen, 1 llond llwy de o fwstard, 1 wy, ¼ peint o laeth, ½ pwys o gig oer, 1 winwnsyn, 1 afal, 1 owns o fenyn, ½ owns powdwr cyrri. ½ owns o flawd corn, 1 llond llwy de o bast tomato neu gyrri, ½ peint o isgell neu ddwr halen, llwyed o chutney coconyt a swltanas, llond llwy de o sudd lemon.

1. Rhidyllio'r blawd y pupur yr halen a'r mwstard i fowlen.
2. Cymysgu'r wy a'r llaeth; eu rhoi yn y blawd a churo'r cwbwl yn dda.
3. Caenu'r darnau cig efo'r cytew a'u ffrio mewn dyfnder o saim.
4. Traeno'r darnau ar bapur sugno saim.
5. Ffrio'r winwnsyn a'r afal am ychydig yn y menyn mewn sospan.
6. Ychwanegu'r cyrri y past a'r blawd corn.
7. Ychwanegu'r isgell yn araf a'i droi yr un pryd.
8. Ychwanegu'r chutney, y coconut a'r sultanas.
9. Mudferwi'r cyfan am ¾ awr. Sesno.
10. Ychwanegu sudd lemwn a rhoi'r saws mewn jwg saws.

SEREN RYFEDD (ateb)

1. 09 i fyny, 2, 4, 5.
2. 011 i fyny, 3, 1, 5.
3. 09 tua'r dde, 3, 8.
4. 011 tua'r chwith, 2, 7.


**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**

**Amgueddfa Werin Cymru**

**SAIN FFAGAN**

**Teleffon Caerdydd 561357-8**

**Dowch i weld: Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlân Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilewent, Kennixton, Hendre 'rywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail. Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru. Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith ac os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.**

**Gellwch gael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS o GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.**

*** Mynediad: Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst) Pensiynwyr a phlant (o dan 16) 5c**
**Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw**
*** Maes Parcio: Bysiau 15c Ceir Preifat 10c Beiciau Modur 5c**
*** Dyddiau'r wythnos: Ebrill-Medi—10 a.m.-7 p.m.**
**Hydref-Mawrth—10 a.m.-5 p.m.**
*** Suliau: Agorir am 2.30 p.m.**
*** Llawlyfrau (Cymraeg neu Saesneg) ar gael am 10c yr un (16c trwy'r post)**

**Caeir dydd cyn y Nadolig, dydd Nadolig, trannoeth y Nadolig a Dydd Calan.**


# *Cynlluniau Mari Howells*

*GAN NIA HALL WILLIAMS*

**Pedwar mis yn ol agorwyd siop newydd yn Paget Street (ger y goleuadau cyntaf ar Heol Penarth) ac yno mae Mari Howells o Gaerdydd yn gwerthu ei chynlluniau ei hun – y sgertiau llaes a byr a ffrogiau o felfed, gwlan Cymru neu sidan pur.**

**Bu'n dyheu ers tro am y cyfle i gychwyn busnes yng Nghymru. "Fallai 'mod i'n rhy uchel geisiol" meddai "ond hoffwn helpu i roi enw Cymru ar fap y byd ffasiwn". A hynny drwy ddatblygu'r defnydd a wneir o wlannen Cymreig. "Mae'n siwr bod 'na farchnad i'r cynlluniau traddodiadol ymhlith ymwelwyr ond mae'r amser i ni ddefnyddio'r gwlan yn naturiol er ei fwyn ei hun i greu dillad ffasiwn, ifainc, deniadol".**



*Ffrog – ffedog wlanen – gwyrdd a gwyn. Tua £17. Ar gael hefyd o felfed glas tywyll neu binc, a sidan pur glas golau. Maint 10–16 ond fe wnaiff Mari Howells feintiau mwy ond i'r mesurau fod yn safonol.*

Mae'n gobeithio, hefyd, gweld merched Caerdydd yn magu mwy o antur yn eu hagwedd tuag at wisgo. "Nid peth canol-oed yw e – mae'r merched ifanc yn geidwadol hefyd. Ychydig iawn, er enghraifft, sy'n gwisgo sgert laes ar gyfer gwaith swyddfa – a be sy'n fwy cyfforddus ac ymarferol? A hetiau – fe ddaw llawer yma i'w trio, a chael eu plesio, ond teimlo nad oes ganddyn nhw mo'r plwc i'w gwisgo."

(Does dim angen llawer i wisgo hetiau Mari Howells – del ydyn nhw yn hytrach na "thu hwnt".)

Dillad 'ar-wahan' sy ganddi'n bennaf ar hyn o bryd ac yn eu plith sgert laes blaen a chwmpas ynddi y gellir ei gwisgo gyda blows llawes-lawn o'r un defnydd. Mae'n gobeithio cynllunio dillad clasurol i bob oed ac yn y dyfodol defnyddio 'suede' (sy'n ffefryn ganddi) gyda addurn o bwythau man.

Mae gan Mari Howells syniadau pendant am ei chrefft – ac am bethau eraill hefyd. Ffasiwn yn gyffredinol. "Yn anffodus mae rhai o brif gynllunwyr Prydain yn codi prisiau uchel ond yn esgeuluso'r manylion sy'n gorffen dilledyn".

Dysgu Cymraeg (mae'n ceisio dysgu ac yn dilyn dosbarthiadau'r Aelwyd).

"Mae'r Aelwyd yn wych ond sut na fuasai'r Cyngor wedi sefydlu Canolfan ers talwm er mwyn i ddysgwyr y ddinas gael lle i ymarfer gyda'i gilydd?"

Teledu "Beth am gael rhaglenni i ddysgwyr yn y pnawn, er mwyn i famau gael dysgu a helpu'r plant"?

Pob llwyddiant yn y siop ac ar ddysgu Cymraeg.

O.N. Mae un rhinwedd arbennig i siop Mari Howells – digon o le i barcio y tu allan!



*Ffrog laes wlanen – lliw hufen.*

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd. Cysodi a chynllunio gan Cysodi Elgan. Argraffwyd gan "Mid Wales Litho".*